



Cwrdd ag anghenion plant byddar wrth i ysgolion ail-agor

Diweddarwyd diwethaf: 15 Gorffennaf 2020

Cyflwyniad

Mae Llywodraethau'r DU wedi mynegi gwahanol gynlluniau ac uchelgeisiau am bryd a sut bydd plant yn dychwelyd i'r ysgol a cholegau. Rydym yn gwybod bydd gweithwyr proffesiynol yn rhannu ein huchelgais y dylai plant byddar dychwelyd i'r ysgol gyda'r un cyfle i gyflawni â phlant eraill.

Bydd gweithwyr proffesiynol yn ymgymryd ag asesiadau risg i benderfynu sut bydd eu lleoliadau eu hunain yn ail-agor. Efallai bydd yr asesiad risg hwn yn codi cwestiynau am sut gall unrhyw gefnogaeth arbenigol bydd plant byddar yn ei derbyn gael ei darparu mewn ffordd sy'n lleihau unrhyw risg bosib i iechyd y cyhoedd. Mae'r briff hwn yn mynegi sawl cwestiwn efallai bydd lleoliadau am eu hystyried, ynghyd â chamau lliniaru posib, er mwyn llywio unrhyw asesiad risg maent yn ei wneud.

Er nad ein rôl yw rhoi cyngor iechyd cyhoeddus, rydym yn disgwyl bydd yna ystyriaeth ynghylch y risgiau i blant byddar unigol os na fyddant yn derbyn cefnogaeth arbenigol fel arfer, a bod risgiau o'r fath yn cael eu cydbwysu yn erbyn unrhyw bryderon am iechyd y cyhoedd. Rydym yn credu dylai unrhyw leihad mewn cefnogaeth arbenigol fod yn ddewis olaf, o ystyried y gallai tansellio yn sylfaenol sut all plant byddar gael mynediad at addysg yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd gallai gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl plant byddar os na allant ddeall eu hathrawon neu eu cyfoedion tra ydynt yn yr ysgol.

Mae'r briff hwn wedi cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar gyda chefnogaeth gan Gymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) a'r Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr (NatSIP). Mae'n canolbwyntio ar gefnogaeth i blant byddar mewn ysgolion prif-ffrwd. Ond, gall nifer o'r egwyddorion a'r awgrymiadau fod yn werthfawr i blant byddar mewn gwahanol fathau o leoliadau addysg.

Egwyddorion

Yn ddiweddarach yn y briff hwn, amlinellwn sawl cwestiwn penodol efallai byddai ysgolion a cholegau am eu hystyried. Nid ydym yn darparu atebion pendant, gan y bydd hyn yn dibynnu ar y cyd-destun unigol. Ond, mae yna sawl egwyddor y dylid eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad.

1. Na ddylid gwneud polisiâu cyffredinol (er enghraifft, gwahardd ymwelwyr allanol i gyd). Yn lle, rydym yn credu dylai unrhyw bolisi ystyried anghenion unigol plant byddar, a, fel y mynegwyd yn gynharach, cydbwysu'r risgiau i iechyd y cyhoedd yn erbyn y risg i blant unigol o beidio â derbyn y gefnogaeth sydd angen arnynt.
2. Dylai Athrawon Plant Byddar gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau ar sut y darperir cefnogaeth.
3. Dylai rhieni a phlant byddar hefyd gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau o'r fath a chael gwybod yn union beth sy'n digwydd. Efallai bydd gan rhieni a phlant byddar eu hawgrymiadau eu hunain am sut i ddarparu cefnogaeth, a ddylent gael eu cymryd o ddifrif.

4. Dylid bod yna agwedd rhagweithiol. Rydym yn annog gweithwyr proffesiynol i barhau i fod yn greadigol, pragmatig a hyblyg mewn sicrhau bod plant byddar yn cael y gefnogaeth sydd angen arnynt, cymaint â phosib.
5. Dylai unrhyw leihad mewn cefnogaeth arbenigol fod yn ddewis olaf a gydag ymwybyddiaeth lawn am yr effaith ar blant byddar unigol. Mae rhoi plant byddar mewn sefyllfa lle na allant ddeall eu hathrawon neu eu cyfoedion yn annerbyniol ac anghynladwy. Os penderfynir nad oes unrhyw ddewis arall ond i leihau cefnogaeth arbenigol dros dro, disgwylwn fod trywydd archwilio clir sy'n nodi pa gamau lliniaru sydd ar waith. Dylai cynllunio gweithredu fod yn CAMPUS. Hefyd disgwylwn fod cynllun ar waith i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i helpu plant byddar i ddal i fyny. Gall hyn gynnwys cefnogaeth ychwanegol i ddal i fyny neu hyfforddiant un-i-un sy'n benodol ar gyfer eu hanghenion unigol.

Risgiau a materion allweddol

Mae'r tabl isod yn amlinellu sawl mater a risg penodol, cwestiynau allweddol i'w harchwilio wrth ystyried y risg a chamau lliniaru posib. Ni fwriedir iddi fod yn hollgynhwysfawr a'r gobaith yw y byddai'n annog trafodaeth a chydweithio rhwng ysgolion, Athrawon Plant Byddar, pobl ifanc byddar a theuluoedd. Fel y mynegir yn gynharach, rydym yn annog gweithwyr proffesiynol i fod yn greadigol, pragmatig a hyblyg mewn sicrhau bod plant byddar yn cael y gefnogaeth sydd angen arnynt, cymaint â phosib.

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Lleihad mewn mynediad at gefnogaeth arbenigol lle bod hyn yn cael ei darparu gan arbenigwr allanol yn ymweld â'r ysgol (e.e. Athro Plant Byddar peripatetig)</p>	<p>Beth yw'r effaith ar y plentyn unigol os na all yr Athro Plant Byddar neu arbenigwr allanol arall ddarparu cefnogaeth wyneb-yn-wyneb i blentyn unigol a/neu staff ysgol?</p> <p>A oes yna risg y bydd lleihad mewn mynediad yn rhwystro gallu'r plentyn i gael mynediad at ddysgu?</p> <p>Noder, mewn Lloegr a Chymru, mae canllawiau'r llywodraeth yn nodi yn ddiamwys bod athrawon peripatetig yn gallu symud rhwng ysgolion¹.</p>	<p>I gynnal unrhyw gyfarfodydd yn yr ysgol mewn ystafell sydd wedi'i hawyru'n dda a all gael ei glanhau yn hawdd ar ôl y cyfarfod. Dylid nodi gall cynnal cyfarfodydd yn yr awyr agored fod yn anodd i blant byddar oni bai fod lefel y sŵn cefndir yn isel iawn.</p> <p>I ofyn i ymwelwyr i gadarnhau byddant yn dilyn gofynion cadw pellter cymdeithasol ac yn darparu cofnodion am unrhyw ymdrechion profi ac olrhain y gallai fod eu hangen.</p> <p>I gynnal cyfarfodydd, yn cynnwys sesiynau un-i-un gyda disgyblion, ar-lein. Mae hyn yn cymryd bydd y plentyn neu staff yr ysgol yn derbyn y cyfarpar TG sydd ei angen arnynt a'r amser i allu gwneud hyn yn effeithiol. Dylid dilyn unrhyw bolisiau diogelu ond dylent fod yn gymesur â'r sefyllfa ac wedi'u cydbwysu â'r risg i blant unigol os nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth arbenigol sydd angen arnynt. Gall y rhagofalon diogelu gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod plant mewn 'lle sy'n cael ei rhannu' ar gyfer unrhyw gyfarfodydd ar-lein.</p> <p>Lle nad yw'n bosibl cadw pellter cymdeithasol, gofyn i Athrawon Plant Byddar neu staff arbenigol allanol arall i wisgo rhywbeth i orchuddio eu hwynebau wrth iddynt ddod i mewn ac yn symud trwy'r ysgol. Dylid tynnu'r gorchudd pan ydynt gyda'r plentyn byddar.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Lleihad mewn mynediad at gyfarpar arbenigol sy'n cael eu rhannu gyda phobl eraill (fel cymhorthion radio)</p>	<p>Beth yw'r effaith ar y plentyn, yn nhermau mynediad at addysg a'u lles emosiynol, os na allent glywed eu hathro yn glir?</p> <p>Noder, os oes yna unrhyw newidiadau i acwsteg ystafell ddosbarth a/neu yng ngoleuni cadw pellter cymdeithasol, mae defnyddio cymhorthion radio yn debygol o ddod yn fwy, nid yn llai, pwysig, gan gynnwys ymhlith plant sydd ddim wedi defnyddio cymhorthion radio o'r blaen.</p>	<p>Pwysleisio'r anghenion hylendid arferol – h.y. golchi dwylo yn rheolaidd.</p> <p>Darparu gel llaw gyda chymorth radio fel gall athro olchi ei ddwylo yn hawdd pob tro maent yn cyffwrdd â'r cymorth radio.</p> <p>Darparu cadach diheintio fel gall cymorth radio gael ei lanhau cyn ac ar ôl iddo gael ei ddefnyddio. Noder, mae'n rhaid i hyn gael ei wneud yn ofalus, yn dilyn canllawiau'r gwneuthurwyr, i osgoi damwain i'r ddyfais. Dylid gofyn am gyngor a chefnogaeth gan eich gwasanaeth addysg arbenigol i blant byddar ar hyn. Mae Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Yddar (BATOD) hefyd wedi darparu canllawiauⁱⁱ.</p> <p>Lle bo'n ymarferol, trefnu bod oedolyn, fel arfer yr athro, yn cymryd cyfrifoldeb am afael yn y cymorth radio a'i dal tuag at berson arall os/pan ydynt yn siarad.</p> <p>Mae gan rai cymhorthion radio swyddogaeth cynadledda neu 'cyfeirio'. I blant hŷn, gall gofyn iddynt gymryd cyfrifoldeb am leoli unrhyw gymorth radio sydd â'r swyddogaeth hon mewn ffordd sy'n gallu clywed llais yr athro yn glir, yn ogystal â chyfoedion mewn unrhyw drafodaeth grŵp, heb i'r athro gorfod cyffwrdd â'r cymorth radio fod yn opsiwn. Ond:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd hyn yn golygu bydd rhaid i'r athro aros yn agos i'r cymorth radio • Mae hefyd yn cymryd bod y person ifanc yn hyderus yn defnyddio'r cymorth radio a gellir dibynnu arnynt i symud y cymorth radio i le mae ei angen. <p>Atgoffa athrawon am bwysigrwydd ail-fynegi neu aralleirio'r hyn mae disgyblion eraill wedi'i ddweud mewn unrhyw drafodaeth dosbarth, neu roi amser i ddisgyblion byddar i droi i wynebu'r disgybl sy'n siarad.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Trechu trafferthion technolegol</p>	<p>I blant iau, pa gamau y gellir eu cymryd o fewn yr ysgol i sicrhau bod y staff yn gallu trechu unrhyw drafferthion gyda thechnoleg clyw'r plentyn (Ile maent wedi derbyn hyfforddiant i'w wneud yn barod)?</p> <p>Beth yw'r effaith ar y plentyn, yn nhermau mynediad at addysg a'u lles emosiynol, os na fydd eu technoleg clyw yn gweithio'n iawn yn yr ysgol?</p>	<p>Gofyn i rieni i wneud gwiriadau sylfaenol cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Dylai Athro Plant Byddar y plentyn neu awdiolegydd allu cynnig cyngor ar beth ddylai hyn gynnwys i bob plentyn.</p> <p>Yn dibynnu ar eu hoedran, annog plant i fod mor annibynnol â phosib wrth ddefnyddio eu technoleg clyw.</p> <p>Lle bo'n rhaid i staff yr ysgol drechu unrhyw drafferthion yn ystod y dydd, sicrhau bod yr anghenion hylendid arferol ar waith – h.y. golchi dwylo yn rheolaidd cyn ac ar ôl cyffwrdd â'r offer.</p> <p>Darparu gwybodaeth i rieni ar sut allant drechu unrhyw drafferthion sylfaenol gyda'r dechnoleg clyw os ddaw unrhyw broblemau yn amlwg gartref.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Lleihad mewn mynediad at gefnogaeth arbenigol o fewn yr ysgol (e.e. cynorthwywyr dysgu neu weithwyr cymorth cyfathrebu)</p>	<p>Cydnabyddir gall rhai cynorthwywyr dysgu gael eu gofyn i arwain grwpiau bach neu 'swigod' o blant, o dan oruchwyliaeth athro</p> <p>Beth fydd yr effaith ar blant byddar os nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth arferol gan gynorthwydd dysgu neu weithiwr cymorth cyfathrebu? Beth yw'r risg y byddai'r lleihad yn y gefnogaeth hon yn golygu bod y plentyn ddim yn gallu deall neu gael mynediad at ddysgu?</p> <p>Yn Lloegr, mae'r canllawiau yn cyfyngu yn benodol adleoliad cynorthwywyr dysgu i blant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabled (AAAA)ⁱⁱⁱ</p>	<p>Ein barn yw, lle bo gan gynorthwywyr dysgu neu weithwyr cymorth cyfathrebu rolau penodol mewn cefnogi plant byddar unigol, ni ddylent gael eu hadleoli i rolau eraill. Mewn nifer o achosion, gall y gefnogaeth gan gynorthwydd dysgu neu weithiwr cymorth cyfathrebu gael ei nodi mewn datganiad neu gynllun plentyn. Dylid cymryd camau i sicrhau bod unrhyw gynorthwydd dysgu neu weithwyr cymorth cyfathrebu sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod plentyn byddar penodol yn gallu cymryd rhan yn yr ysgol yn rhan o'r un 'swigen' a'r plentyn.</p> <p>Lle bo gan gynorthwydd dysgu rôl fwy cyffredinol sydd ddim yn cynnwys darparu cefnogaeth unigol uniongyrchol i blentyn byddar unigol, yn dibynnu ar natur y dasg ac anghenion unigol, ystyried a yw'n fwy buddiol i'r plentyn os ydynt yn yr un grŵp a'i athro neu gynorthwydd dysgu arferol. Gall hyn gynnwys grwpio plant a fydd yn elwa o gymorth gan gynorthwywyr dysgu yn yr un swigen.</p> <p>Hyblygrwydd ychwanegol gyda'r cwricwlwm i sicrhau bod cymorth er mwyn gallu dal fyny neu hyfforddiant un-i-un sydd wedi'u targedu ar waith.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Cefnogaeth arbenigol ar gyfer plant mewn darpariaethau adnoddau</p>	<p>Mae plant mewn darpariaethau adnoddau yn derbyn cefnogaeth arbenigol mewn ystod o ffyrdd gwahanol, rhwng yr ystafell ddosbarth prif ffrwd ac yn y ddarpariaeth adnoddau. Gall cefnogaeth yn y ddarpariaeth adnoddau gael ei darparu i blant byddar o wahanol grwpiau oedran.</p> <p>Yn Lloegr, mae'r canllawiau yn caniatáu cydgymysgu ymhlith plant o grwpiau oedran gwahanol at ddibenion cefnogaeth arbenigol^{iv}.</p>	<p>Bydd rhaid i ysgolion gyda darpariaeth adnoddau feddwl yn ofalus am sut gall y gefnogaeth arbenigol hon barhau i gael ei chynnig ac ar yr un pryd glynu wrth egwyddorion cadw pellter cymdeithasol cymaint â phosib.</p> <p>Sicrhau bod egwyddorion cadw pellter cymdeithasol a hylendid yn cael eu dilyn pan mae plant byddar yn dod i mewn i ystafell ddosbarth y ddarpariaeth adnoddau.</p> <p>Meddwl am amserlennu gwersi er mwyn lleihau'r newidiadau a chydgymsgu, lle bo'n bosib.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Mannau dysgu dros dro a newidiadau i lunweddau ystafelloedd dosbarth</p>	<p>Deallwn fod nifer o ardaloedd yn ystyried cyflwyno dysgu mewn manau dysgu dros dro i greu lle ychwanegol, neu i gyflwyno gwersi yn yr awyr agored.</p> <p>Hefyd, rydym yn gwybod bod nifer fawr o ardaloedd am newid llunweddau ystafelloedd dosbarth fel bod y disgyblion i gyd yn wynebu'r blaen. Gall hyn wneud pethau'n anoddach i ddisgyblion byddar i ddarllen gwefusau neu ddeall eu cyfoedion.</p> <p>Sut bydd yr amodau acwsteg mewn unrhyw fannau dros dro a ddefnyddir? Gwyddys bod portacabins a neuaddau pentref, er enghraifft, fel arfer ag 'atsain' ac yn amgylcheddau gwranddo anodd</p>	<p>Adnabod pa ystafelloedd sydd â'r amodau dysgu gorau posib a sicrhau bod grwpiau neu swigod sy'n cynnwys plant byddar yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer ystafelloedd o'r fath.</p> <p>Sicrhau bod anghenion gwranddo, iaith a chyfathrebu plant yn cael eu hystyried wrth feddwl am leoli seddi, sŵn cefndir posib a sut mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn unrhyw fannau dysgu dros dro.</p> <p>Sicrhau bod cymhorthion radio yn cael eu defnyddio'n effeithiol.</p> <p>Atgoffa athrawon am bwysigrwydd ail-fynegi neu aralleirio'r hyn mae disgyblion eraill wedi'i ddweud mewn unrhyw drafodaeth dosbarth, neu alluogi disgyblion byddar i droi i wynebu'r disgybl sy'n siarad.</p> <p>Gofyn am gyngor ar acwsteg unrhyw fan dysgu dros dro gan Athro Plant Byddar neu awdiologydd addysg. Dylid nodi ni fydd systemau maes sain cludadwy yn gweithio yn dda mewn unrhyw fan dysgu dros dro sydd ag acwsteg wael yn barod a gall wneud y sefyllfa yn waeth.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Hygyrchedd dysgu o bell</p>	<p>Gall dull dysgu cyfunol fod ar waith mewn ambell ardal, lle mae plant ar y safle am ran o'r amser ac wedyn gartref am y gweddill. Hefyd, mae yna bosibilrwydd bydd rhaid i rai ysgolion cau dros dro unwaith eto os bydd cyfyngiadau lleol.</p> <p>Pa gamau a gymerir i sicrhau bod deunyddiau o'r fath yn cael eu gwahaniaethu ar gyfer plant byddar, a hefyd yn hygyrch iddynt?</p> <p>Yn Lloegr, mae'r canllawiau yn amlinellu'r angen i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i blant gydag AAAA^v am unrhyw ddysgu o bell.</p>	<p>Gofyn am gyngor gan Athro Plant Byddar ar wahaniaethu deunyddiau dysgu o gartref, yn defnyddio cyngor gan Lywodraethau'r DU, Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar a Chymdeithas Genedlaethol Plant Byddar.</p> <p>Cyswllt agos gyda theuluoedd, fel y bo'n briodol, fel y gallant gefnogi dysgu eu plentyn gymaint â phosib.</p> <p>Trefnu cefnogaeth arbenigol o bell (e.e. gan weithiwr cymorth cyfathrebu neu Athro Plant Byddar). Dylid cymryd camau i sicrhau bod y ddau barti â chyfarpar TG dibynadwy i alluogi hyn ac unrhyw gyfarpar angenrheidiol arall, er enghraifft clustffonau sy'n ffitio dros gymhorthion clyw. Dylid dilyn unrhyw bolisiâu diogelu ond dylent fod yn gymesur â'r sefyllfa ac wedi'u cydbwysu â'r risg i blant unigol os nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth arbenigol sydd angen arnynt. Gall y rhagofalon diogelu gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod plant mewn 'lle sy'n cael ei rhannu' ar gyfer unrhyw gyfarfodydd ar-lein.</p> <p>Sicrhau bod plant yn gallu cymryd cymhorthion radio gartref i'w defnyddio i gael mynediad at unrhyw gyfleoedd dysgu o bell. Sicrhau bod gan blant byddar unrhyw offer ychwanegol angenrheidiol (er enghraifft, ceblau i gysylltu'r cymorth radio â gliniadur). Gofyn i deuluoedd a phobl ifanc byddar i lofnodi cytundeb i sicrhau bod cymhorthion radio yn cael eu dychwelyd i'r ysgol.</p> <p>Wrth gyfeirio at adnoddau dysgu ar-lein neu ddefnyddio fideos sydd wedi'u cynhyrchu gan yr ysgol, sicrhau bod y rhain yn hygyrch i blant byddar. Disgwyliwn fod is-deitlau a, lle mae plant byddar yn defnyddio iaith arwyddion, fod yna fersiwn wedi'i dehongli, o leiaf.</p> <p>Lle cynhelir gwersi ar-lein byw, talu am gymorth cyfathrebu ychwanegol (fel adroddwr lleferydd-i-destun o bell) a/neu sicrhau gall cymorth sy'n cael eu darparu yn barod (fel dehonglwr iaith Arwyddion Prydain neu weithiwr cymorth cyfathrebu) gael ei weld yn hawdd. Neu, mae gan rai llwyfannau dechnoleg adnabod lleferydd wedi'i galluogi. Ond nid ydynt yn hollol gywir, felly</p>

		bydd angen derbyn adborth parhaol gan y myfyriwr. Dylai'r person ifanc ddewis pa lwyfan i'w defnyddio cymaint â phosib ac ag sy'n ymarferol.
--	--	--

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Hyfforddiant un-i-un a rhaglenni dal i fyny</p>	<p>Bydd nifer o blant byddar yn gymwys ar gyfer hyfforddiant ffurfiol a rhaglenni dal i fyny o'r math a chyflwynir i bob plentyn.</p> <p>Pa gamau a gymerir i sicrhau bod y person sy'n darparu'r hyfforddiant neu sesiwn dal i fyny yn ymwybodol o fyddardod a bod unrhyw ymyriad o'r fath wedi'i deilwra ar gyfer anghenion plant byddar?</p>	<p>Darparu gwybodaeth a hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i hyfforddwyr, yn ogystal â chynghor clir am yr effaith mae byddardod yn cael ar ddysgu plentyn unigol. Dylid gofyn am gyngor gan Athro Plant Byddar i gefnogi hyn.</p> <p>Mae'n rhaid i raglenni dal i fyny ac ymyriadau fod yn hygyrch i blant byddar. Dylid gofyn am gyngor gan Athro Plant Byddar i gefnogi hyn.</p>
<p>Lles emosiynol plant byddar</p>	<p>Gwyddys yn barod bod plant byddar yn fwy tebygol o les emosiynol is. Mae'n debygol bod y cyfyngiadau wedi cael effaith negyddol ar les emosiynol nifer fawr o blant. Gall plant byddar wedi teimlo eu bod wedi'u hynysu ac yn unig, yn fwy nag arfer, yn ystod y cyfnod hwn</p> <p>A oes angen ymgymryd ag asesiad a/neu adolygu datganiad neu gynllun y plentyn?</p>	<p>Sefydlu rhaglenni cymorth cyfoedion i blant byddar, fel y bo'n briodol ac yn unol ag anghenion cadw pellter cymdeithasol</p> <p>Lle mae dosbarthiadau wedi'u rhannu yn grwpiau llai neu 'swigod', sicrhau bod plentyn byddar yn yr un grŵp ag un neu ddau o'i ffrindiau a bod y plentyn yn gallu eu deall yn hawdd neu sy'n gallu darparu cymorth cyfoedion.</p> <p>Sicrhau bod unrhyw ymyriadau neu raglenni bugeiliol/cefnogaeth yn ystyried anghenion plant byddar. Hefyd sicrhau bod unrhyw gynghorwyr yr ysgol yn ymwybodol o fyddardod ac yn gallu cwrdd ag anghenion plant byddar. Mae'n bosib na fydd plant byddar yn gallu ymuno â rhai ymyriadau fel 'amser cylch ar-lein' a gall hyn achosi gofid. Dylid gofyn am gyngor gan Athro Plant Byddar y plentyn.</p>

		<p>Ystyried a oes angen i'r ysgol neu wasanaeth wneud atgyfeiriad i gefnogaeth bellach, gan gynnwys gan Wasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS) (Lloegr) neu unrhyw gysylltiadau sydd wedi'u henwi ar gyfer cymorth iechyd meddwl i blant byddar yn eich ardal.</p>
--	--	---

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Masgiau a gorchuddion wyneb</p>	<p>Ni argymhellir defnydd masgiau a gorchuddion wyneb mewn ysgolion gan unrhyw un o Lywodraethau'r DU, heblaw am amgylchiadau cyfyngedig. Ond nid yw wedi cael ei wahardd.</p> <p>Bydd defnyddio masgiau a gorchuddion wyneb yn cael effaith sylweddol ar allu plant byddar i gyfathrebu, i'r fath raddau a fydd mynychu'r ysgol neu goleg yn ddibwrpas.</p>	<p>Os penderfynwyd bod athrawon am wisgo masgiau mewn addysg, byddwn yn awgrymu bod cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng y lleoliad addysg, y teulu ac Athro Plant Byddar i adnabod y risgiau i fynediad plant byddar at ddysgu a'u lles emosiynol, ac i adnabod trefniadau arall (fel hyfforddiant un-i-un)</p> <p>Lle defnyddir masgiau neu orchuddion wyneb gan staff arall ar y safle (fel staff arlwygo), dylid ystyried yn benodol camau lliniaru er mwyn sicrhau bod plant byddar yn gallu eu deall (er enghraifft, gofyn am eu cinio ar wahân). Dylid cynnig cyngor am ymwybyddiaeth o fyddardod i staff. Yn ddelfrydol dylid gwisgo masgiau clir, lle bo'n bosibl.</p>

Cynlluniau statudol ac ymdrechion rhesymol/gorau – nodyn byr

O dan Ddeddf y Coronafeirws, mae awdurdodau lleol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gallu defnyddio ymdrechion rhesymol neu orau os yw'r coronafeirws yn eu hatal rhag gallu cwrdd â'r anghenion a nodir mewn cynllun neu ddatganiad Addysg, Iechyd a Gofal plentyn. Mae Deddf y Coronafeirws yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud yr un peth. Ond, ar adeg ysgrifennu, nid yw'r pwerau hyn mewn grym.

Bydd cyfyngiad amser ar y pwerau hyn. Ar adeg ysgrifennu, yn Lloegr, disgwylir i ohriad cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal dod i ben ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Mae yna sawl ystyriaeth allweddol i'w cadw mewn cof os penderfynir arfer ymdrechion rhesymol neu orau.

- Mae'n rhaid i leoliadau addysg ac awdurdodau lleol edrych ar bob achos yn unigol i weld beth fydd yn rhesymol i'w ddarparu os na fydd yr hyn a ddarperir yn arferol yn bosib mwyach. Dylid ystyried lefelau penodol angen a bregusrwydd. Ni ddylid fod polisïau 'cyffredinol' neu fod cefnogaeth, cynlluniau neu ddatganiadau yn cael eu canslo ar radd eang ledled ardal.
- Dylai lleoliadau addysg ac awdurdodau lleol weithio gyda theuluoedd cymaint â phosib i gytuno ar unrhyw newidiadau. Efallai bydd gan deuluoedd eu hawgrymiadau a syniadau eu hunain am sut i wneud pethau yn wahanol.
- Os nad oes modd darparu'r hyn a ddarperir fel arfer, dylid esbonio'r rhesymau i deuluoedd yn ysgrifenedig, ynghyd ag eglurhad am yr ymdrechion rhesymol neu orau mae'r awdurdod lleol wedi'u defnyddio i sicrhau y darperir y cymorth angenrheidiol, cymaint ag sy'n bosib, ynghyd â manylion yr hyn a ddarperir yn ei le.
- Ystyried sut i ymateb i anghenion unigol plant mewn ffyrdd creadigol a hyblyg, fel sy'n digwydd mewn nifer o leoliadau addysg ac awdurdodau lleol yn barod. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar sgiliau ehangach staff eraill neu deuluoedd eraill, fel y bo'n briodol.
- A fydd unrhyw ymdrechion rhesymol neu orau eu hunain yn debygol o fod yn hygyrch i blant a phobl ifanc byddar. Mae'n bwysig adnabod bydd anghenion plant byddar yn amrywio – efallai na fydd yr hyn sy'n hygyrch i un plentyn yn hygyrch i blentyn arall.
- Nid yw'r deddfau newydd yn rhoi'r awdurdodau lleol y pŵer i newid cynnwys cynllun neu ddatganiad. Mae hyn yn golygu, unwaith codir unrhyw ohriad, bydd gan gynllun/datganiad plentyn yr un statws cyfreithiol ag o'r blaen. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw rhiant yn derbyn bod newidiadau yn angenrheidiol yn y tymor byr, mewn ymateb i ledaeniad y coronafeirws.

Mwy o wybodaeth

Mae [blog i weithwyr proffesiynol](#)^{vi} Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn cynnwys mwy o wybodaeth am y coronafeirws a chefnogaeth i blant byddar ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, mewn ymateb i unrhyw newidiadau mewn canllawiau'r llywodraeth a/neu adborth gan weithwyr proffesiynol.

Hefyd gallwch gysylltu â [linell gymorth](#)^{vii} y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar os hoffech wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth bellach. Hefyd gallwch [gyfeirio teuluoedd](#)^{viii} atynt os byddent yn elwa o'u cefnogaeth.

Mae ystod o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws hefydd ar gael trwy [BATOD](#)^{ix} a [Phartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr](#)^x.

Ôl-nodion

ⁱ Lloegr: “Gall athrawon llanw, athrawon peripatetig a/neu staff dros dro eraill symud rhwng ysgolion. Dylent sicrhau eu bod yn lleihau cyswllt ac yn cadw cymaint o bellter ag sy’n bosib o aelodau staff eraill. Dylai arbenigwyr, therapyddion, clinigwyr a staff cymorth arall i ddisgyblion sydd ag AAAA ddarparu ymyriadau fel arfer”...

“Lle y bo angen defnyddio staff llanw a chroeso ymwelwyr i’r ysgol fel athrawon peripatetig, disgwylir i’r unigolion hynny gydymffurfio â threfniadau’r ysgol am reoli a lleihau risg, yn cynnwys bod yn ofalus i gadw pellter o aelodau staff eraill a disgyblion.”

www.gov.uk/government/publications/actions-for-schools-during-the-coronavirus-outbreak/guidance-for-full-opening-schools

Cymru: “Gall athrawon llanw, athrawon peripatetig a/neu staff dros dro eraill symud rhwng ysgolion. Dylent sicrhau eu bod yn lleihau cyswllt ac yn cadw cymaint o bellter ag sy’n bosib o aelodau staff eraill. Dylai arbenigwyr, therapyddion, clinigwyr a staff cymorth arall i ddisgyblion sydd ag AAAA ddarparu ymyriadau fel arfer. Dylai ysgolion ystyried sut i reoli ymwelwyr eraill i’r safle, fel contractwyr a sicrhau bod canllawiau’r safle ar gadw pellter cymdeithasol/corfforol a hylendid yn cael eu hegluro i ymwelwyr wrth iddynt neu cyn iddynt gyrraedd. Lle bo ymweliadau yn digwydd y tu allan i oriau ysgol, dylent. Dylid cadw cofnod o bob ymwelydd.”

<https://llyw.cymru/canllawiau-newydd-i-gefnogi-dychwelyd-ir-ysgol-ym-mis-medi>

ⁱⁱ www.batod.org.uk/resource/uk-assistive-listening-technology-working-group-and-batod-joint-advice/

ⁱⁱⁱ “Dylai ysgolion sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i’r disgyblion gydag AAAA, er enghraifft gan osod cynorthwywyr dysgu a galluogi staff arbenigol o tu mewn a thu allan i’r ysgol i weithio gyda disgyblion mewn dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn gwahanol”...

“Hefyd gall cynorthwywyr dysgu gael eu gosod i arwain grwpiau neu ddysgu gwersi, dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro cymwysedig, neu enwebedig, (o dan the Education (Specified Work) (England) Regulations 2012 ar gyfer ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir ac yn unol â’r rhyddid a ddarperir o dan gytundeb ariannu ar gyfer academiâu). **Ni ddylai unrhyw adleoliad fod ar draul cefnogi disgyblion gydag AAAA.**” (ychwanegir print trwm er mwyn pwyslais)

www.gov.uk/government/publications/actions-for-schools-during-the-coronavirus-outbreak/guidance-for-full-opening-schools

^{iv} “Nid yw’r dulliau o wahanu grwpiau a chadw pellter yn opsiynau ‘y cwbl neu ddim’, a byddant yn dod â buddion hyd yn oed os ydynt yn cael eu gweithredu yn rhannol. Gall rhai ysgolion gadw plant yn eu grwpiau dosbarth am y mwyafrif o’r amser dosbarth, ond yn caniatáu cymysgu mewn grwpiau mwy ar gyfer dysgu arbenigol, gofal cofleidiol a thrafnidiaeth, neu ar gyfer disgyblion preswyl mewn un grŵp yn ystod amser preswyl a grŵp arall yn ystod y dydd... Bydd ymgeisio i gadw’r grwpiau hyn ar wahân yn rhannol o leiaf a lleihau cyswllt rhwng plant, dal i gynnig buddion i ieuchyd y cyhoedd gan ei fod yn lleihau’r rhwydwaith trosglwyddiad uniongyrchol posib.”

www.gov.uk/government/publications/actions-for-schools-during-the-coronavirus-outbreak/guidance-for-full-opening-schools

^v “Wrth ddatblygu’r cynlluniau at raid hyn, disgwylwn i ysgolion... adnabod efallai na fydd disgyblion iau a rhai disgyblion gydag AAAA yn gallu cael mynediad at addysg o bell heb gymorth oedolyn, ac felly dylai ysgolion weithio gyda theuluoedd i gyflwyno cwricwlwm eang ac uchelgeisiol.”

www.gov.uk/government/publications/actions-for-schools-during-the-coronavirus-outbreak/guidance-for-full-opening-schools

^{vi} www.ndcs.org.uk/blog/coronavirus-and-support-for-deaf-children-information-for-professionals/

^{vii} www.ndcs.org.uk/helpline

^{viii} www.ndcs.org.uk/our-services/services-for-families/helpline/referral-form-for-professionals/

^{ix} www.batod.org.uk/resource/suggested-resources-from-batod-members/

^x www.natsip.org.uk/coronavirus-advice-and-resources